## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 21ain Mehefin 2010 yn Siambr y Cyngor, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am.

**PRESENNOL**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15fed o Fawrth 2010 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cynghorydd S Frobisher a'r Cynghorydd A M Jones rhwng y 1af o Fawrth a'r 18fed o Fehefin 2010 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 PEIRIANNAU AG YSGOL AC ESGYNLAWR

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am gefnogaeth yr holl Aelodau am yr argymhelliad a wnaed gan y Panel Gweithredol y dylai'r Awdurdod newid safon gweini'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr (ALP) o 20 munud i 30 munud ac o ganlyniad, peidio â phrynu peiriant ALP newydd.

6.2 Yn 2006 penderfynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar safon gweini o 20 munud i Beiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr ac o ganlyniad cadwyd y pedwar peiriant. Gan fod yr ALP a leolir yn Wrecsam yn dod i ddiwedd ei oes weithredol yn 2012, roedd cyfle i adolygu'r safon gweini bresennol.

6.3 Mae'r peryglon sydd ynghlwm â symud o safon gweini 20 munud i 30 munud ar gyfer Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr yn isel iawn oherwydd mae'r data digwyddiadau yn dangos na ddefnyddir Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr fel peiriant ymateb brys. O ran y digwyddiadau a fynychwyd defnyddiwyd y peiriant yn ystod cyfnodau diwethaf digwyddiad. Dim ond mewn 7% o ddigwyddiadau (10 allan o 147) y defnyddiwyd Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr yn ystod y 30 munud cyntaf. Esboniodd y Prif Swyddog Tân petai'r Awdurdod yn dewis cadw at y safon gweini o 20 munud ar gyfer yr ALP, yna byddai angen cychwyn y broses caffael ar gyfer prynu ALP newydd ar unwaith.

6.4 Roedd y Cynghorydd M Ll Davies yn teimlo ei bod yn bryd i'r Awdurdod wneud penderfyniad pendant un ffordd neu'r llall ac y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad fod yn fwy cadarn. Gofynnodd y Cynghorydd George am ragor o wybodaeth ar y mater ac os bu unrhyw drafodaeth gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Sir Gaer ynglŷn â defnyddio eu peiriannau ALP hwy.

6.5 Mynegwyd pryder gan y Cynghorydd P C Evans ynglŷn â'r modd deliwyd gyda'r mater ac nad oedd yn foddhaol. Roedd y Cynghorydd P C Evans o'r farn fod y cynnig i beidio â phrynu ALP newydd yn gynllun arbed arian a dylid trafod y mater yn y Pwyllgor Archwilio. Roedd y Cynghorydd J V Owen yn anghytuno a'r sylwadau gan egluro ei fod o, fel aelod o'r Panel Gweithredol, wedi derbyn gwybodaeth helaeth ynglŷn â'r mater a'i bod yn amlwg nad arbed pres oedd y nod ond penderfyniad ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau yn gyfrifol.

6.6 Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D Mackie am farn swyddogion ar y mater, cafwyd cadarnhad gan y Prif Swyddog Tân petai'r safon gweini yn newid i 30 munud byddai'r Gwasanaeth yn gallu cyflawni'r safon ar draws Gogledd Cymru gyda thri pheiriant ALP.

6.7 Cafwyd sylw hefyd gan yr Is-gadeirydd ynglŷn â'r trafodaethau a gafwyd yn y Panel Gweithredol ar y mater. Nid ar chwarae bach y gwnaed penderfyniad i ofyn i'r Awdurdod ystyried yr argymhelliad hwn. Er mwyn i'r Awdurdod symud ymlaen, teimlai'r Is-gadeirydd y byddai o fudd i'r aelodau anweithredol gael cyfarfod briffio ar y mater.

6.8 **PENDERFYNWYD trefnu cyfarfod briffio ar gyfer yr holl Aelodau i'w gynnal ym mis Medi er mwyn i'r Awdurdod allu gwneud penderfyniad terfynol yng nghyfarfod mis Hydref.**

7 YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2010

7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2009-12, fel gwaith sy'n mynd rhagddo, ynghyd â thestun drafft dogfen ymgynghoriad cyhoeddus cysylltiol er cymeradwyaeth yr Aelodau.

7.2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Lleihau Risg/cynllun gweithredu blynyddol, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol. Mae canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn nodi bod amseru'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu y byddai'n gyfleus llunio un cynllun. Mae'r cynllun cyfunol yn cynnwys adroddiad ar y flwyddyn ariannol flaenorol, crynodeb o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn gyfredol, a'r cynllun gwella, ac unrhyw amcanion ychwanegol o ran y Cynllun Lleihau Risg, am y flwyddyn ariannol i ddod.

7.3 Lluniwyd Cynllun cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2009-2012. Mae'r Cynllun yn ymgorffori data amcanol am 2008-09 (nad oedd wedi ei archwilio ar ddyddiad y cyfarfod) lle bo hynny ar gael, ac amcanion lleihau risg ar gyfer Ebrill 2011 ymlaen, fel yr adroddwyd eisoes yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15fed o Fawrth 2010.

7.4 Hefyd, lluniwyd testun dogfen ymgynghorol ddrafft, oedd yn ymgorffori'r amcanion o ran gwella a lleihau risg ar gyfer 2011-12, ynghyd â chyfres o gwestiynau arfaethedig. Caiff cynnwys y ddogfen ymgynghorol ei ddefnyddio yn sail i ddogfen ddeniadol a hygyrch i'w dosbarthu'n eang ymhlith y cyhoedd a'r staff. Wedi diwedd y cyfnod ymgynghori, gofynnir i'r Panel Gweithredol ystyried yr ymatebion, ac i gytuno ar ddrafft terfynol o'r Cynllun Gwella / Cynllun Lleihau Risg, a hynny i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Cadarnhawyd y byddai'r ddwy ddogfen yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

7.5 Teimlai'r Cynghorydd George dylai'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella bwysleisio fod yr Awdurdod yn mynnu cydweithrediad ac y dylid ei wneud yn fwy amlwg ar dudalennau 48 a 63 o'r ddogfen. Cytunodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gyda'r sylwadau hyn a chytunwyd i ddiwygio'r ddogfen i adlewyrchu'r gwaith a wneir gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a'r sefydliadau yng Ngogledd Cymru.

7.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo cynnwys y ddogfen ymgynghorol, er mwyn ei chyhoeddi a'i dosbarthu;**

**(ii) cefnogi'r cynnig i wneud y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gael ar wefan yr Awdurdod fel gwaith yn mynd rhagddo, fel y gellir cyfeirio atynt trwy gydol cyfnod ymgynghori 2010.**

8 CYFLWYNIAD AR FFIGYRAU PERFFORMIAD DRAFFT

8.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol ar y ffigyrau perfformiad drafft ar gyfer 2009/10, oedd heb eu harchwilio'n derfynol ar ddyddiad y cyfarfod. Roedd y ffigyrau yn gymhariaeth â thuedd cenedlaethol digwyddiadau ar draws y Deyrnas Unedig.

8.2 Amlygwyd y ffeithiau canlynol:

- gostyngiad bychan yn nifer yr holl danau
- gostyngiad arwyddocaol yn nifer y prif danau
- cynnydd bychan mewn tanau eilaidd
- gostyngiad bychan yn nifer y tanau simnai.

8.3 Roedd nifer y digwyddiadau a fynychwyd wedi gostwng o oddeutu 6,000 ar ddechrau'r ddegawd i oddeutu 3,500 ar ddiwedd y cyfnod hwn. Bu gostyngiad amlwg yn nifer y prif danau o 2,400 i 1,500.

8.4 Bu gostyngiad bychan yn nifer y tanau mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru gyda'r ffigyrau yn dangos fod maint y difrod o ganlyniad i'r tanau yn cael ei gadw i'r lleiafswm, a bod 93% o'r tanau yn cael eu cyfyngu i'r ystafell ble dechreuodd y tân. Hefyd roedd 93% o bobl yn gallu dianc heb anaf a heb gymorth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ystyrir fod hyn o ganlyniad i'r ymgyrch i gynnig cyngor diogelwch tân a'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

8.5 Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am y tanau bwriadol ac oes oedd cynllun i geisio gostwng y nifer. Esboniodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Tîm

Lleihau Tanau Bwriadol. Bu nifer o achosion amlwg iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda rhai troseddwyr yn cael eu carcharu. Mae'r bartneriaeth yn parhau.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2009/2010

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad rheoli'r trysorlys sy'n ofynnol yn ôl trefn gofnodi'r Awdurdod, ac yn cynnwys gweithgarwch y trysorlys ar gyfer 2009-2010. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y gwir ddangosyddion darbodus ar gyfer 2009-2010 yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

9.2 **PENDERFYNWYD**
- **(i) cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus 2009-2010; a**
- **(ii) nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2009-2010.**

10 PERFFORMIAD ARIANNOL 2009-2010

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd adolygiad o berfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2009-10. Hefyd, oherwydd newidiadau deddfwriaethol gofynnwyd i'r Awdurdod ddirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor Archwilio.

10.2 Yn 2008-09 neilltuwyd Darpariaeth ar gyfer ôl dâl pensiwn yn sgil taliadau anghywir. Darganfuwyd hyn pan drosglwyddwyd y gwaith o weinyddu'r cynllun i Sir Gaerfyrddin. Yn 2009-10 talwyd yr ôl dâl pensiwn o'r cyfrif refeniw felly nid oedd angen y Ddarpariaeth mwyach. Trosglwyddwyd y balans ar y Ddarpariaeth i'r Ddarpariaeth ôl Dâl i ddiffoddwyr tân wrth gefn.

10.3 Roedd trafodaethau ynghylch ôl dâl i ddiffoddwyr tân wrth gefn yn dal i barhau ond ar sail y datblygiadau diweddaraf gwnaed amcangyfrif o'r costau i'r Awdurdod. Disgwylir y byddai'r costau rhwng £600k a £700k. Cynyddwyd y Ddarpariaeth Ôl Dâl i Ddiffoddwyr Tân wrth gefn i £506k i gynnwys peth o'r atebolrwydd hwn. Byddai angen dod o hyd i weddill y costau o'r arbedion yng nghyllideb refeniw 2010-11.

10.4 Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies pryd fyddai trafodaethau yn cychwyn ar gyfer cyllideb 2011-12. Cadarnhawyd y byddai trafodaethau cynllunio ariannol yn cael eu cynnal yn ystod yr haf rhwng y Prif Swyddog Tân, Clerc a'r Trysorydd. Byddai adroddiad cychwynnol yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol ym mis Medi ac i'r Awdurdod llawn ym mis Hydref.

10.5 Diolchodd y Trysorydd i Sandra Forrest a Julie Brown am eu gwaith caled wrth gwblhau'r cyfrifon.

10.6 **PENDERFYNWYD**
- **(i) cymeradwyo'r cam o drosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd wrth gefn a'r Darpariaethau;**
- **(ii) dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Datganiadau o Gyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor Archwilio.**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL O'R DYLEDION DRWG A DDILËWYD

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu'r Aelodau fod y Gwasanaeth wedi dileu dyledion drwg gwerth £663.22 rhwng y 1af o Ebrill 2009 a'r 31ain Mawrth 2010.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

12 ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau fod 32,802 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu cyflawni gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/2010. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi gwelliannau allweddol i'r Gwasanaeth.

12.2 Llongyfarchwyd y swyddogion, gan yr Is-gadeirydd, am gyflawni cynifer o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a chanmolwyd y gwaith a wnaed yn adran diogelwch tân cymunedol. Hysbyswyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân y byddai hwn yn fater pwysig i'r Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf a'i bod yn bwysig cofio fod gwaith diogelwch tân cymunedol yn waith rheng flaen ac yn amhrisiadwy.

12.3 Llongyfarchwyd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân a'i gydweithwyr, gan y Clerc, am y gwaith a wnaed ar Brotocol Rhannu Gwybodaeth gyda'r Awdurdodau Lleol. Hysbyswyd yr Aelodau y gallant gael manylion pellach am y protocol gan eu Hawdurdodau.

12.4 **PENDERFYNWYD nodi**
**(i) llwyddiant y Gwasanaeth - wedi rhagori ar darged yr Awdurdod Tân ac Achub a'r cynnydd yn nifer yr archwiliadau a gwblhawyd;**
**(ii) nad oedd disgwyl y byddai cyllid ychwanegol ar gael eleni;**
**(iii) y cynnydd yn nifer yr archwiliadau a wnaed gan ymarferwyr, a gyllidwyd o ailstrwythuro swyddi criw'r Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr, - galluogodd hyn ostyngiad yn nharged y criwiau llawn amser a dydd;**
**(iv) fod y Gwasanaeth wrthi'n gwerthuso ei holl weithgareddau i sicrhau fod atgyfeiriadau o ansawdd yn cael eu casglu yn y digwyddiadau a fynychir.**

13 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

13.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu a diweddaru Aelodau o'r nifer o gwynion a llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd rhwng y cyfnod Ebrill 2009 a Mawrth 2010.

13.2 Derbyniwyd 31 o gwynion ond dim ond deg cwyn a brofwyd. Derbyniwyd 76 o lythyrau yn mynegi gwerthfawrogiad, roedd rhain yn cyfeirio at ystod eang o weithgareddau.

13.3 Teimlai'r Cynghorydd P C Evans fod y nifer isel o gwynion yn glod i'r Gwasanaeth ac y dylid cofnodi gwerthfawrogiad yr Awdurdod i'r holl staff. O ystyried y nifer o ddigwyddiadau a fynychir a'r nifer o weithgareddau a gynhelir, teimlai'r Cynghorydd Evans fod nifer mor isel gwynion yn galonogol i'r Aelodau.

13.4 **PENDERFYNWYD nodi'r nifer o gwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd.**

14 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Awdurdod enwebu pedwar aelod o'r Awdurdod i gyfweld a phenodi aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau. Hefyd, gofynnwyd i Aelodau gytuno y dylid dirprwyo penodiad aelod lleyg y panel i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

14.2 Esboniodd y Clerc fod Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi ymddiswyddo oherwydd salwch teuluol. Hysbysebwyd y swydd a derbyniwyd chwe chais am y swydd.

14.3 **PENDERFYNWYD**

- **(i) penodi'r Cynghorwyr P C Evans, E C George, J V Owen ac W P Roberts i'r panel cyfweld a phenodi;**
- **(ii) cytuno y dylid dirprwyo penodiad aelod lleyg ar gyfer y panel i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân a'r Clerc.**

15 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL - LWFANS GOFAL AC AELODAU ANNIBYNNOL

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau ystyried swm Lwfans Gofal addas i'w dalu i Aelodau cymwys, ac ystyried cais gan y Pwyllgor Safonau i dalu lwfans addas i Aelodau Annibynnol.

15.2 Roedd yr Awdurdod wedi cytuno i dalu lwfans gofal i Aelodau yn 2009, ond ni phennwyd swm penodol. Cadarnhawyd y byddai angen tystiolaeth ysgrifenedig cyn byddai taliad yn cael ei wneud.

15.3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 16eg o Fawrth 2009, roedd Aelodau wedi gwrthod cynnig i dalu lwfans i aelodau annibynnol. Esboniodd y Clerc fod gan y Pwyllgor Safonau raglen waith a byddai'n cyfarfod oddeutu tair gwaith y flwyddyn. Cynigiodd Cynghorydd P C Evans opsiwn 2 a nodwyd yn yr adroddiad, cefnogwyd hyn gan yr holl Aelodau.

15.4 **PENDERFYNWYD**

- **(i) talu lwfans gofal hyd at £100 y mis i aelodau cymwys o 1af o Ebrill 2009 ymlaen; a**
- **(ii) chytuno i dalu lwfans o £362.50 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a £190 ar gyfer aelodau annibynnol eraill i ddechrau o 1af o Ebrill 2010.**

16 COFNODION CYFARFODYDD

16.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth i'r Awdurdod:

- cyfarfod Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar y 10fed o Fai 2010 (heb eu cadarnhau)
- cyfarfod Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fai 2010 (heb eu cadarnhau)
- cyfarfod Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y 1af o Fawrth 2010 (wedi eu cadarnhau).

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

17 ER GWYBODAETH

17.1 Cyflwynwyd y rhifyn diweddaraf o Er Gwybodaeth i'r Awdurdod gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks.

17.2 **PENDERFYNWYD derbyn y cylchgrawn Er Gwybodaeth.**